

Rhif cyfeirnod: UHB513  
Rhif y Fersiwn: 1

Dyddiad yr Adolygiad Nesaf: 13 Chwefror  
2024  
Cyfeirnod blaenorol yr  
Ymddiriedolaeth/BILI: *Unrhyw rif  
cyfeirnod a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddogfen  
hon yn flaenorol*

## *Polisi'r Gymraeg ar gyfer Cleifion Mewnol*

### **Datganiad Polisi**

Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei nodau, amcanion, cyfrifoldebau a gofynion cyfreithiol fel y nodir o dan Safonau'r Gymraeg. Gall darparu gofal i gleifion Cymraeg eu hiaith yn eu dewis iaith arwain at ganlyniadau gwell i gleifion ac felly bydd y polisi hwn yn sicrhau bod cleifion mewnol yn cael cynnig gweithredol ynghylch a ydynt yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg.

### **Ymrwymiad Polisi**

Mae'r polisi yn ymrwmo'r sefydliad i ofyn i glaf neu ddefnyddiwr gwasanaeth ar ddiwrnod cyntaf eu derbyniad a ydynt yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg yn ystod eu derbyniad.

Os yw claf neu ddefnyddiwr gwasanaeth yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg, yna mae angen i'r Bwrdd Clinigol neu'r adran gymryd camau i sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, neu os na fydd hyn yn bosibl, rhoi mesurau eraill ar waith, fel trefnu cyfieithydd.

Os nad yw'r claf/defnyddiwr gwasanaeth yn gallu cyfathrebu, yna dylai staff ddefnyddio prosesau sefydledig eraill, megis y Weithdrefn Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol, i ganfod y dewis iaith.

### **Gweithdrefnau Ategol a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig**

Mae'r polisi hwn yn amlinellu ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau yn gallu gwneud hynny yn eu dewis iaith.

Dylai fod gan Fyrddau Clinigol a meysydd eraill fesurau ar waith i sicrhau eu bod yn gallu darparu lefel o wasanaeth i gleifion y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt, gan gynnwys:

- Sicrhau bod staff wedi cofrestru eu sgiliau Cymraeg ar eu Cofnod Staff Electronig (ESR).
- Sicrhau y gofynnir i gleifion beth yw eu dewis iaith pan gânt eu derbyn, sydd wedyn yn cael ei gofnodi ar Gofnod Gofal Nyrsys Cymru, neu ar Systemau Rheoli Cleifion fel PMS a Paris.
- Defnyddio sgiliau Cymraeg y gweithlu i sicrhau bod cleifion y mae'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn cael y lefel orau o ofal neu driniaeth yn eu dewis iaith.

Teitl y Ddogfen: <i>Polisi'r Gymraeg ar gyfer Cleifion Mewnol</i>	2of 3	Dyddiad Cymeradwyo: 13 Feb 2024
Rhif cyfeirnod: UHB513		Dyddiad yr Adolygiad Nesaf: 13 Feb 2027
Rhif y Fersiwn: 1		Dyddiad Cyhoeddi: 28 Feb 2024
Cymeradwywyd gan: Quality, Safety & Experience Committee		

- Sicrhau bod staff wedi cwblhau'r modiwl hyfforddiant gorfodol Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- Annog staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Annog staff â sgiliau Cymraeg i arddangos y logo '*iaith gwaith*' fel rhan o'u gwisg i ddangos eu bod yn hapus i gyfathrebu yn Gymraeg.

#### Ymhlith y dogfennau ategol eraill mae:

*Rhestrwch yr holl ddogfennau y mae angen i'r darlennydd fod yn ymwybodol ohonynt ochr yn ochr â / i gefnogi'r ddogfen hon:*

- Safonau'r Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Mwy na Geiriau, Fframwaith y Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2022-2027
- Polisi'r Gymraeg
- Cynllun Ymgynghori Clinigol 5 mlynedd
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Polisi Dehongli
- Gweithdrefn Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Polisi'r Gymraeg

#### Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob un o'n staff ym mhob lleoliad gan gynnwys y rhai sydd â chontractau anrhydeddus.

<b>Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb</b>	Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau a chanfuwyd bod hyn yn gadarnhaol. Mae camau gweithredu allweddol wedi'u nodi a gellir dod o hyd i'r rhain wedi'u hymgorffori yn y polisi/gweithdrefn ategol hon.
--	--

<b>Asesiad o'r Effaith ar Iechyd</b>	Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi'i gwblhau a chanfuwyd bod effaith gadarnhaol. Mae camau gweithredu allweddol wedi'u nodi a mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn y polisi/gweithdrefn ategol hon.
<b>Polisi wedi ei gymeradwyo gan</b>	Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
<b>Grŵp sydd ag awdurdod i gymeradwyo gweithdrefnau a</b>	Senior Leadership Board

Teitl y Ddogfen: <i>Polisi'r Gymraeg ar gyfer Cleifion Mewnol</i>	3of 3	Dyddiad Cymeradwyo: 13 Feb 2024
Rhif cyfeirnod: UHB513		Dyddiad yr Adolygiad Nesaf: 13 Feb 2027
Rhif y Fersiwn: 1		Dyddiad Cyhoeddi: 28 Feb 2024
Cymeradwywyd gan: Quality, Safety & Experience Committee		

<b>ysgrifennwyd i egluro sut y caiff y polisi hwn ei weithredu</b>	
<b>Swyddog Gweithredol neu Gyfarwyddwr Bwrdd Clinigol Atebol</b>	Cyfarwyddwr Meddygol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
<b><u>Ymwadiad</u></b>	
Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydychi'n ei defnyddio yw'r un ddiweddaraf, naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu <a href="#">Gyfarwyddiaeth Llywodraethu</a> .	

Crynodeb o adolygiadau/diwygiadau			
Rhif y Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo'r Adolygiad	Dyddiad Cyhoeddi	Crynodeb o'r Diwygiadau
1	13.02.2024	28.02.2024	dogfen newydd
2			

### Tudalen Gynnwys

<i>Cyfresol</i>	<i>Teitl y Cynnwys</i>	<i>Rhif y dudalen</i>

### Atodiadau (os oes angen)
